

## **Cynnal gwiriad hawl I weithio diogel**

Mae'r gwiriad hawl i weithio yn rhan bwysig o'r broses gynefino, am fod angen i ni weld ein holl gyflogeion newydd wyneb yn wyneb. Mae'n ofyniad cyfreithiol y mae'n rhaid i ni ei fodloni.

Mae hefyd yn bwysig iawn i ni oherwydd mae angen i ni roi cit technegol i'r ymgeiswyr.  
Bydd rheolwyr llinell yn cyrraedd lleoliad y cyfarfod mewn da bryd i osod yr ystafell.

Bwrdd yng nghanol yr ystafell, lle bydd sgrin tisian neu sgrin ddiogelu perspex. Yn y man cyswllt bydd cadeiriau wedi'u gosod y naill ochr i'r llall i'r bwrdd a byddwn bob amser yn cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr rhyngddynt.

Wrth osod yr ystafelloedd bydd rheolwyr llinell yn dewis man addas i roi diheintydd dwylo,  
a bydd weips ar gael hefyd a fydd yn cael eu defnyddio i lanhau pob arwyneb ar ddechrau'r diwrnod ac yna rhwng pob ymgeisydd a fydd yn cyrraedd.

Byddai weips hefyd yn cael eu defnyddio i lanhau unrhyw gitiau neu focsys cyn eu rhoi i'r ymgeiswyr. Pan fydd ymgeisydd yn cyrraedd lleoliad y gwiriad hawl i weithio dylai ddilyn y cyfarwyddiadau lleol.

- Helo, dyma eich sedd. Fyddech chi'n fodlon diheintio eich dwylo hefyd?

Pan fydd ymgeiswyr newydd yn cyrraedd y gwiriad hawl i weithio ac yn mynd i mewn i'r ystafell, byddwn ni'n gofyn iddynt ddiheintio eu dwylo.

Bydd y rheolwr llinell hefyd yn diheintio ei ddwylo o flaen yr ymgeisydd.

Rydym ni wir yn edrych ymlaen at eich croesawu i'r tîm.

Felly, y peth cyntaf mae angen i ni ei wneud yw'r gwiriad hawl i weithio, ydych chi wedi dod â'ch gwaith papur?

- Ydw.

- Gwych. Dyma'r gwaith papur y gwnaethoch chi ei ddefnyddio o'r blaen gydag Adecco

- Ie. Mae popeth gen i. Beth hoffech chi ei weld yn gyntaf?

- Gawn ni weld eich pasbort yn gyntaf? Byddai hynny'n wych.

- Iawn.

- Wnewch chi ei agor i'r dudalen â'ch llun arno a'i ddal i fyny i'r sgrin?

- lawn

- Pan fydd yn dangos y dogfennau adnabod, byddwn ni'n gofyn i'r ymgeisydd dynnu ei orchudd wyneb am eiliad.

- Diolch yn fawr iawn.

lawn.

Mae angen i ni weld eich prawf cyfeiriad hefyd. Ac rwy'n credu bod cyfriflen banc o fis Tachwedd 2020

- Oes. Mae'r gyfriflen gen i

- Gwych. Os gallech chi ddal hwn i fyny, byddai hynny'n wych. lawn. Perffaith. Rydych chi bellach wedi'ch cyflogi ar gyfer Cyfrifiad 2021.

- Diolch.

- Y peth nesaf mae angen i ni ei wneud yw rhoi eich cit technegol i chi. Mae gennym ni ffôn symudol a rhai ategolion i chi. Mae angen i mi edrych ar rif ased y ddyfais symudol. lawn, mae gennym ni...

Cyn rhoi'r cyfarpar i'r cyflogai, mae'n hanfodol ei fod wedi'i ddiheintio.

- Efallai yr hoffech chi ddefnyddio diheintydd dwylo wedyn.

- lawn, fe wna i hynny, diolch.

- Pan fyddwch chi'n mynd adref bydd angen i chi droi eich dyfais symudol ymlaen...

- Unwaith y bydd y gwiriad hawl i weithio ar gyfer cyflogai wedi'i gwblhau, bydd wedi'i gadarnhau ac wedi dechrau ac bydd wedi gadael yr ystafell.

Yna bydd y rheolwr llinell yn glanhau pob arwyneb â weip cyn yr ymgeisydd nesaf.

Bydd yn diheintio ei ddwylo eto i wneud yn siŵr bod popeth yn ddiogel ac yn barod ar gyfer yr ymgeisydd nesaf.

Y peth allweddol i ni yw bod rheolwyr llinell ac ymgeiswyr yn teimlo'n hollol ddiogel drwy gydol y gwiriad hawl i weithio.

Y brif flaenoriaeth i ni yw iechyd a diogelwch pawb drwy gael y cyfarpar cywir a bod yn barod.

Rydym ni'n hyderus y gallwn ni roi hyn ar waith ac y gallwn ni gynnal y gwiriadau hawl i weithio mewn ffordd sy'n ddiogel o ran COVID.